Beibl i Blant
yn cyflwyno



# Yr Eglwys yn wynebu anawsterau

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Janie Forest

addaswyd gan: Ruth Klassen

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2017 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Pum deg diwrnod ar ôl i Iesu, mab Duw, ddod nôl yn fyw, daeth yr Ysbryd Glân at ei ddilynwyr. Doedd y disgyblion ddim yn deall sut oedd Duw y Tad, ...



... Duw y Mab (Iesu) a Duw yr Ysbryd Glân yn gallu bod yn un, ond roeddwn nhw'n hapus fod Duw gyda nhw.  Gwnaeth Duw bethau gwych i helpu'r apostolion ddweud wrth eraill am Iesu.



Roedd y bobl oedd
yn credu yn Iesu
yn rhannu popeth er
mwyn gwneud yn siwr
fod pobl dlawd
yn cael gofal.
Ond roedd
un cwpl o'r
enw Ananias
a Saffira
yn anonest.



Ar ôl gwerthu ychydig o dir fe wnaethon nhw gymryd arnyn nhw bod nhw wedi rhoi'r arian i gyd i'r apostolion. Ond roedden nhw wedi cadw peth o'r arian iddyn nhw eu hunain.





"Pam wyt ti wedi gadael i Satan gael gafael ynot ti a dweud celwydd wrth yr Ysbryd Glân...?"

gofynnodd Pedr i Ananias. "Dim wrthyn ...





… ni rwyt ti wedi dweud celwydd, ond wrth Dduw.” Syrthiodd Ananias yn farw i’r llawr. Daeth dynion ifanc a lapio’r corff cyn ei gario allan i’w gladdu.

Ychydig wedyn, daeth Saffira yno. Doedd hi ddim yn gwybod fod ei gŵr wedi marw. Fe wnaeth hi hefyd ddweud celwydd am yr arian, a digwyddodd yr un peth iddi hi. Roedd gan



Fe wnaeth yr Ysbryd Glân lawer o wyrthiau rhyfeddol drwy'r apostolion, ...




... er enghraifft, roedd pobl sâl yn cael eu gwella wrth i gysgod Pedr
ddisgyn arnyn nhw.

Roedd llawer o wyrthiau yn digwydd, ac roedd hyn yn dangos fod Duw yno gyda nhw.  Daeth mwy a mwy o bobl i gredu yn Iesu.




Roedd hyn yn gwylltio'r Archoffeiriad.
Dyma fe'n rhoi'r apostolion yn y carchar!



Ond yn ystod y nos daeth angel yr ARGLWYDD atyn nhw ac agor drysau'r carchar. Dyma fe'n dweud, "Ewch i'r deml, sefyll yno a dweud wrth bobl am y bywyd newydd yma."



Dyma'r apostolion yn mynd i ddysgu'r bobl am Iesu. Yn y bore, aeth dynion yr Archoffeiriad i'r carchar - doedd neb yno.

Pan ddaethon nhw o hyd iddyn nhw, dechreuodd yr Archoffeiriad ddweud y drefn wrth yr apostolion. “Cawsoch chi orchymyn clir i beidio sôn am y dyn yna.” “Mae’n rhaid i ni ufuddhau i Dduw, dim i ddynion,” …



... atebodd Pedr a'r apostolion. Roedd yr Archoffeiriad yn gynddeiriog, roedd e am ladd yr apostolion. Ond yn lle hynny, dyma fe'n rhoi gorchymyn iddyn nhw gael eu curo, a'u gollwng yn rhydd.



Er eu bod nhw mewn poen, fe wnaeth yr apostolion ufuddhau i Dduw, a dal ati i ddysgu am Iesu.



Un diwrnod cafodd dyn o'r enw Steffan ei arestio. Roedd Steffan yn caru'r Arglwydd Iesu. Roedd yr Ysbryd Glân yn ei ddefnyddio i ddweud wrth bobl am Iesu.



Dyma rai yn dweud celwydd amdano, a cyhuddo Steffan o ddweud pethau drwg am Dduw. Ar ôl achos llys ffug, cafodd Steffan ei labyddio i farwolaeth.



Cyn iddo farw, fe wnaeth Steffan, yn llawn o'r Ysbryd Glân, edrych i fyny a gwelodd ogoniant Duw, a Iesu yn sefyll ar ei ochr dde.



Dyma'r dyrfa yn taflu cerrig at Steffan wrth iddo fe weddio a dweud, "Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd i."



Yna, fel Iesu ar y groes, fe wnaeth y dyn dewr yma farw gan ofyn i Dduw faddau i'r bobl oedd yn ei ladd.



Dyna ddechrau cyfnod newydd o erlid gyda marwolaeth Steffan.



Dechreuodd dyn ifanc o'r enw Saul, un oedd wedi helpu wrth i Steffan gael ei ladd, arestio unrhyw Gristion roedd e'n gwybod amdanyn nhw.



Dyma lawer ohonyn nhw'n dianc o'u cartrefi a gwasgaru drwy Jwdea a Samaria.  Dim ond yr apostolion wnaeth aros yn Jerwsalem.



Er bod gelynion y credinwyr yma am eu lladd, roedden nhw'n dal i ddweud wrth bobl am y newyddion da am Iesu.



Doedd dim yn mynd i rwystro dilynwyr Iesu - achos roedd Ysbryd Glân Duw gyda nhw ac yn gwneud gwaith trwyddyn nhw.



Yr Eglwys yn wynebu anawsterau

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Actau 5-7

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

# Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu
ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth
ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16